

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Lun, 24 Ebrill 2017 am 7.00 o'r gloch.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Miss JA Roberts (yn y gadair) **JAR**, Mrs EAB Thomas **EABT**, Mrs Linda Jones **LJ**, Mr Victor Owen **VO**,
Cynghorwr Llinos Medi Huws **LMH**.

Ymddiheuriadau:

Mr Adrian Jones, Mr Glyn Roberts, Mr Aled Ifan, Dr Edward Jones.

2. Datgan Diddordeb.

Dim.

3. Cofnodion Ebrill 2017 a unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Adroddwyd fod pawb wedi derbyn copiau o'r cofnodion.

EABT yn cynnig eu bod yn gywir, a **VO** yn eilio.

- 3.1 Ymhellach o etholiadau cynghorwyr Cyngor Cymuned, derbyniwyd rybudd o etholiad diwrthwynebiad. Nodwyd nad oedd **EJ** nac **EABT** wedi cyflwyno eu hysbysiad o ymgeisiaeth cyn y dyddiad cau, ond eu bod yn dymuno parhau fel aelodau. Cytunwyd i'w cyf ethol. Y clerch i hysbysu CSYM.
- 3.2 Nodwyd gan y clerch fod cais ffurfiol wedi ei wneud i CSYM i godi'r arwyddion newydd. Derbyniwyd gadarnhad gan CSYM eu bod yn edrych dros y cais, ond eu bod yn nodi eu dymuniad i fanylion yr Eisteddfod fod yn ddwy iaethog. Y clerch i gysylltu yn ol a CSYM i nodi mai dymuniad yr aelodau fyddai cael y wybodaeth yma yn gymraeg yn unig, ond eu bod yn cytuno i delerau CSYM.
- 3.3 Nododd **LJ** fod cais wedi ei wneud ar ran Pwyllgor Towyn Trewan i symud y defaid oddi ar y tir comin dros dro, ond yr ymateb oedd clerch y pwyllgor wedi ei dderbyn oedd na fyddai hyn yn bosib.
- 3.4 Adroddodd **JAR** ei bod wedi derbyn gwybodaeth mai blwch BT oedd y blwch gwyrdd oedd wedi ymddangos ar y lon wrth Rhosydd. Nodwyd gobaith efallai fyddai hyn yn gwella cyflymder a chysylltiad y we, ond nododd **LJ** fod cysylltiad gawel iawn ar adegau ar gyrion y pentref. Nododd fod gwaith llawer o ffermwyr yn gorfod cael ei gyflwyno ar lein, ac na fyddai hyn yn bosib oherwydd y cysylltiad gwael. Cytunwud i'r clerch ysgrifennu at yr Aelod Cynulliad, Rhun ap Iorwerth ynglyn a'r mater.
- 3.5 Adroddodd y clerch fod Cynghorwr John Griffith wedi derbyn gwybodaeth gan yr adran briffyrdd y byddai y cais i wneud gwaith ar Lon Dywyll yn cael eu nodi a'i gwblhau maes o law.

Clerch/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachaeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



4. Maes Chwarae/Ffrindiau Bodedern

Nododd LMH ei bod wedi derbyn grant o £500 gan grwp Cynefin tuag at offer newydd I'r maes chwarae, ac y byddai £1200 yn dod gan Ffrindiau Bodedern. Nododd fod gwerth dros £18,000 o grantiau wedi eu derbyn yn y blynyddoedd diwethaf, a oedd yn fyddsoddiad da iawn. Cynigodd JAR ddiolchgarwch cywiraf ar ran y cyngor cymuned am eu ymrwymiad i'r maes chwarae.

5. Materion Cynllunio

Hysbysiad o Ymgynhoriad ar godi gwrychoedd ar gyfer darpariaeth Eisteddfod 2017.

Nodwyd dim gwrthwynebiad cyn belled a bod perchnogion y tir wedi eu ymgynghori a wedi chytuno.

6. Gohebiaeth

- 6.1 Llythur gan Mr John Roberts, yn cynnig ei wasanaeth fel archwilydd mewnol eto. Cytunwyd byddai Mr Roberts yn parhau fel yr archwilydd mewnol eto eleni. **EABT** yn cynnig, **LJ** yn eilio.
- 6.2 Llythur gan Swyddfa Archwilio Cymru ynglyn a archwiliad 2015-16. Nodwyd gan SAC fod nifer o gwynion wedi eu derbyn ynglyn ac archwilwyr allanol BDO, ac felly penderfynwyd ysgriennu at bob Cyngor Cymuned yn esbonio'r materion cyffredinnol a godwyd. Nodwyd fod y gontract archwilio wedi cael ei ddyfarnu ar system sy'n seiliedig ar bwyntiau, ond cytunwyd dylai'r comisiynydd iaith rhoi mwy o bwysau ar SAC i ddyrannu mwy o bwyntiau i'r gallu i gynnal y gwaith yn Gymraeg.

7. Eisteddfod.

Nodwyd y dymuniad parhaus i dacluso'r pentref ar gyfer yr Eisteddfod. Nododd y clerc ei bod wedi cwrrd a MON CF oedd yn barod i ddarparu blodau yn y pentref, ond ei bod yn ceisio trefnu amser i gwrdd a cynrychiolydd o CSYM ar gyfer cadarnhau perchnogaeth darnau o dir a chaniatad i roi blwchau. Nododd **LMH** ei bod yn disgwl cyfarfod a cynrychiolydd o'r adran eiddo ynglyn a mater ar wahan, felly y clerc i yrru ymlaen manylion y cais am wybodaeth perchnogaeth i **LMH**. Nododd y clerc nod oedd unrhyw ymateb wedi ei dderbyn gan yr Eisteddfod ynglyn a unrhyw grantiau neu gymorth ariannol tuag at y pentref.

8. Taliadau i'w gwneud. Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol:

8.1 Dwr Cymru	Direct Debit	£18.79
8.2 John Roberts Archwiliad 15-16	Siec 200005	£69.00
8.3 Mon GC MGC2246	Siec 200006	£200.00

Cyngor Cymuned Bodedern



9. Unrhyw fater arall.

9.1 Nododd **LMH** fod amser etholiad yn agosau, a diolchodd i'r aelodau am eu croeso. Mynegodd **JAR** gwerthfawrogiad yr aelodau am ei gwaith caled dros y gymuned.

9.2 Nodd **JAR** ei bod wedi derbyn ymholiad ynglyn a lleoliad safle bws Dalar gan ei fod yn anghyfleus. Nodwyd os byddai'r safle bws yn cael ei symud byddai hyn yn effeithio ar llwbr trafelilio y bws.

Cau 7.50

Arwyddwyd : _____

Dyddiad : _____